Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau ariannol y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Mawrth 2024

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cafodd y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) [1](y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol[2], gan gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, eu cyflwyno gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) ar 20 Tachwedd 2023.

**2.** Ar 21 Tachwedd 2023, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad rhagarweiniol ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn[3].

**3.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil ar 7 Chwefror 2024, [4]gan:

- Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol;
- Ben Crudge, Pennaeth Polisi Treth Lleol, Llywodraeth Cymru; a
- Simon Tew, Rheolwr y Bil, Llywodraeth Cymru

**4.** Gwnaeth y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ymgymryd â'r gwaith o graffu ar bolisïau'r Bil.[5]

**5.** Hefyd, trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil yn unol â materion sy'n dod o fewn ei gylch gorchwyl.[6]

[1] Llywodraeth Cymru, Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol
[3] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 21 Tachwedd 2023
[4] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024
[5] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

# 2. Diben y Bil a'r angen amdano

**6.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai diben cyffredinol y Bil yw:

> *"...gwneud cyfraniad sylweddol at ddiwygio ardrethi annomestig a'r dreth gyngor yng Nghymru, gan fynd i'r afael â llawer o gyfyngiadau'r trefniadau presennol."* [7]

**7.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y newidiadau a gynigir gan y Bil yn sicrhau bod y fframwaith ar gyfer trethi lleol:

- yn cyd-fynd yn agosach â newidiadau yn amodau'r farchnad;
- yn ymateb i'r cyd-destun sy'n datblygu ar gyfer trethdalwyr, a'r effeithiau dilynol ar gymunedau; ac
- wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion Cymru drwy gael ei sefydlu a'i gynnal o fewn pwerau a strwythurau datganoledig.[8]

**8.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio y bydd y pwerau a gynigir yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth mewn nifer o feysydd yn lleihau dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar Filiau Llywodraeth y DU i gyflawni newidiadau i Gymru, ac yn caniatáu i newidiadau gael eu gwneud mewn modd amserol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y bydd "y pwerau arfaethedig yn lleihau'r angen am fesurau anneddfwriaethol brys".[9]

**9.** Mae'r Bil yn cynnwys tair rhan ac un atodlen:

- Mae Rhan 1 o'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag Ardrethi Annomestig, ac mae'n gwneud diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988").
- Mae Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r dreth gyngor ac yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992").
- Mae Rhan 3 o'r Bil yn gwneud darpariaethau cyffredinol.[10]

---

[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 9
[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 10
[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 10
[10] Llywodraeth Cymru, Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

**10.** Mae'r Atodlen i'r Bil yn gwneud diwygiadau canlyniadol sy’n ymwneud â Rhan 1 o'r Bil.[11]

**11.** Dywedodd y Gweinidog bod y system bresennol ar gyfer cyllid llywodraeth leol yn hen iawn. Dywedodd fod y Bil hwn yn rhoi cyfle i ddod â phethau i’r oes fodern a chreu system sy’n hyblyg hefyd i ymateb i newidiadau yn y dyfodol.[12]

**12.** Fodd bynnag, dywedodd fod y Bil hwn ond yn cyfrannu at y rhaglen ddiwygio ehangach honno, ac nad dyma'r diwygiad cyfan ar ei ben ei hun.[13] Ychwanegodd y Gweinidog:

> *“…the provisions in the Bill itself are really about bringing in specific improvements to better enable Welsh Ministers and local authorities to respond to changing circumstances and, potentially, to changing priorities in the future. They've been carefully constructed to try and create the fairest possible situation, and fairness, as you know, is part of our overarching approach to the council tax reform, but it absolutely holds true to non-domestic rates as well.”*[14]

**13.** Pwysleisiodd y Gweinidog mai agwedd allweddol ar y Bil yw cyflwyno ailbrisiadau amlach ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig, dod â phethau yn gyfredol, a pharhau i gael system sefydlog, ond hefyd un sy'n adlewyrchu gwir werth eiddo a siâp y sylfaen dreth.[15] Ychwanegodd:

> *“…another really key part of the Bill is enabling Ministers to alter the reliefs, exemptions, discounts and premiums in the future as well, and I think that's a really core part of the Bill.”*[16]

**14.** Costau cyffredinol y Bil yw £58.8 miliwn dros y cyfnod gwerthuso o ddeng mlynedd rhwng 2024-25 a 2033-34. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn nodi £14.9 miliwn o fanteision dros y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, mae meysydd o fewn y Bil nad ydynt wedi’u costio gan y bydd y gweithgarwch yn cael ei ddatblygu drwy is-ddeddfwriaeth.[17]

---

[11] Ymchwil y Senedd: Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru): Crynodeb o’r Bil
[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 114
[13] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 112
[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 112
[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 113
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 116
[17] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 47

**15.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a oedd hi'n gallu darparu rhagor o wybodaeth am oblygiadau ariannol posibl y newidiadau o fewn is-ddeddfwriaeth ac a oes unrhyw feysydd a allai arwain at gostau sylweddol, y tu hwnt i'r hyn a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Ymatebodd:

> *"We're not able to provide that detail at the moment, because the proposals for how the secondary legislation would be used, and the kind of reliefs, for example, which would be potentially introduced in future haven't been set out. But that said, of course, those regulations would be subject to their own RIAs and their own work in terms of developing and identifying the costings and so on, and communicating that, and consultation where necessary as well. I suppose that's the next step for reform, whereas this immediate step is about creating the structures to enable those final changes to take place in the future, subject to consultation, where appropriate, and also the RIAs and so on."*[18]

**16.** Pan ofynnwyd a fyddai unrhyw feysydd sy'n ddarostyngedig i is-ddeddfwriaeth yn wynebu costau sylweddol, dywedodd y Gweinidog ei bod yn anodd ar hyn o bryd eu nodi. Rhoddodd enghraifft yn ymwneud â lluosyddion ardrethi annomestig, gan nodi:

> *"The Bill will, in future, allow a Government to make different choices on multipliers. At the moment, we only have the one multiplier that we are able to vary in Wales, but, in future, there could be regulations brought in or subordinate legislation brought in whereby you could change on the basis of location, on classification of the property, for example, but you can't do that at the moment. So, depending on what choices are made in that space, it will obviously have an impact in terms of any costs."*[19]

**17.** Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog y canlynol o ran Llywodraeth Cymru:

> *"…we have committed to a review of reliefs and exemptions following this Bill, and that will allow us to look at all the reliefs and exemptions that are currently in place on the non-domestic rates side. We're doing similar work on the council tax*

[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 118
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 120

> *side. Following that piece of work, we'll have more clarity and recommendations, potentially, on what the next steps would be with the powers. And, as the Minister says, that would fully consider the financial impact of any changes that we're proposing in that space."*[20]

**18.** Cadarnhaodd y Gweinidog nad yw'r Bil yn atal unrhyw ystyriaeth o dreth gwerth tir rhag digwydd a dywedodd, mewn gwirionedd, ei fod yn rhywbeth y maent yn ei archwilio'n weithredol ar hyn o bryd. Ychwanegodd:

> *"I did say previously that I would be able to set out some kind of road map for consideration and so on before the end of this Senedd term, and we're currently working on that as well at the moment. So, this doesn't stop any of that work happening, but land value tax, if it is demonstrably better than non-domestic rates, for example, or even council tax, would take an awfully long time to implement. So, we're just exploring that whilst concentrating on these immediate changes."*[21]

**19.** Mae'r rhan fwyaf o'r costau gweinyddol amcangyfrifedig, sef £35.0 miliwn, yn gysylltiedig ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio mewn perthynas â gwaith sy'n ymwneud â darpariaethau ardrethi annomestig a'r dreth gyngor dros y cyfnod gwerthuso o ddeng mlynedd.[22]

**20.** Mae costau gweinyddol eraill yn cynnwys £3.3 miliwn o gostau cyfleoedd nad ydynt yn arian parod ar gyfer amser staff awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â phrosesau ailbrisio. Mae swm bach o gost cyfalaf gweinyddol trosiannol, sef £224,000 i Dribiwnlys Prisio Cymru ac awdurdodau lleol i ddiweddaru eu systemau TGCh mewn perthynas ag ailbrisiadau mwy rheolaidd o'r dreth gyngor.[23]

**21.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau cydymffurfio nad ydynt yn arian parod sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd newydd i ddarparu gwybodaeth gyfredol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n cael eu pennu i dalwyr ardrethi annomestig ac yn gysylltiedig â'r amser ychwanegol i gwblhau'r prosesau priodol ar-lein. Gwerth y rhain yw £14.9 miliwn.[24]

---

[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 121
[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 127
[22] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 48
[23] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 48
[24] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 48

**22.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu costau amcangyfrifedig eraill, sy'n cynnwys y cyfraniad ychwanegol at ryddhad ardrethi annomestig (sydd hefyd yn cael ei nodi fel "mantais uniongyrchol i dalwyr ardrethi"), wedi'u rhannu rhwng Llywodraeth Cymru (£1.9 miliwn) ac awdurdodau lleol (£3.0 miliwn).[25]

**23.** Dywedodd y Gweinidog ei bod yn fodlon â'r ymgysylltu a wnaed â chyrff perthnasol ynglŷn â chostau, er mai dim ond chwe awdurdod lleol a ymatebodd i'r alwad am wybodaeth.[26] Aeth ymlaen i ddweud:

> *"I know that the VOA gave evidence to the Local Government and Housing Committee very recently, and in their evidence they were also satisfied with our assessments of the costs in the RIA as well. Engagement has gone far beyond the response of those six local authorities. Officials are engaging all the time with the VOA, the VTW, local authorities and so on."*[27]

**24.** Ychwanegodd swyddog y Gweinidog:

> *"…we also had regular engagement with local authorities through revenue and benefits, the Society of Welsh Treasurers, and various other engagement sessions, where these numbers have been socialised, and they haven't come to us with any objections to them at this stage."*[28]

## Barn y Pwyllgor

**25.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y cafodd y system bresennol ar gyfer cyllid llywodraeth leol ei sefydlu cyn datganoli, ac rydym yn cefnogi'r angen i ddiwygio i greu system decach a hyblyg a all ymateb i newid yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan mai dim ond rhan o'r diwygio hwnnw yw'r Bil hwn, tra bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cwmpasu cyfnod gwerthuso o ddeng mlynedd, mae'n amlwg bod y Bil hwn yn rhan o raglen ddiwygio ehangach, ac nad yw ei chyfeiriad nac unrhyw gostau cysylltiedig yn hysbys ar hyn o bryd. Er ein bod yn ystyried y Bil a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel y cyflwynir hwy, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod y darlun llawn o gostau cysylltiedig yn parhau i fod yn ansicr o ystyried y bydd nodau polisi eang y Gweinidog yn cael eu cyflawni drwy gyfuniad

[25] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 49
[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 134
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 134
[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 135

o is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil hwn, yn ogystal â thrwy fentrau deddfwriaethol a pholisi eraill.

**26.** Mae'r Pwyllgor yn nodi mai un o nodau allweddol y Bil yw cyflwyno ailbrisiadau amlach ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig, er mwyn gwella tegwch ac ymatebolrwydd i newid economaidd, ymhlith pethau eraill. Yn ogystal, nod y Bil yw gwella'r system o ran rhyddhad, esemptiadau a disgowntiau, a gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni blaenoriaethau polisi yn y dyfodol.

**27.** Er ein bod yn gefnogol ar y cyfan i nodau'r Bil, bydd llawer o'r darpariaethau hyn yn cael eu cyflwyno drwy is-ddeddfwriaeth. Rydym ni, ar sawl achlysur yn ystod y Senedd hon, wedi mynegi ein siom bod gorddibyniaeth ar is-ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn anodd asesu cyfanswm cost Bil a deall goblygiadau'r newidiadau sy'n cael eu cynnig. Rydym yn pryderu y gallai fod goblygiadau ariannol sylweddol yn sgil newidiadau a wnaed drwy is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r Bil hwn. Mae hyn wedi ei gwneud yn arbennig o anodd i'r Pwyllgor ddeall effaith ariannol y ddeddfwriaeth. At hynny, er ein bod yn nodi'r sicrwydd a roddwyd gan y Gweinidog y bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil hwn yn y dyfodol yn cael ei chostio'n llawn, ni ddylai hynny gymryd lle darparu costau manwl ar y dechrau, trwy eu cynnwys o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil hwn.

**28.** Fel yr amlygwyd yn ein hadroddiad ar Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)[29], rydym yn disgwyl i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys amcangyfrif gorau o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol, er mwyn ein galluogi i graffu'n llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil. Mae Llawlyfr Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ei hun yn dweud:

> *"… hyd yn oed pan nad yw union fanylion is-ddeddfwriaeth wedi cael eu pennu'n derfynol, mae angen amcangyfrif gorau o'r costau a'r manteision tebygol".*[30]

**29.** Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed nad yw'r Bil hwn yn atal unrhyw waith pellach rhag digwydd ar dreth gwerth tir arfaethedig. Rydym yn nodi y bydd y Gweinidog yn nodi 'map ffordd' ar gyfer y dreth hon cyn diwedd tymor yr haf a byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am ei chostau cysylltiedig. Serch hynny, mae'n bwysig archwilio pob llwybr ar gyfer newid er mwyn sicrhau bod y penderfyniad cywir yn cael ei wneud ynghylch y system fwyaf priodol o drethiant

[29] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Goblygiadau ariannol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)
[30] Llywodraeth Cymru: Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad, Mai 2019, tudalen 51

lleol. Felly, rydym yn annog bod Llywodraeth Cymru yn archwilio opsiynau ar gyfer diwygio pellach yn helaeth.

**30.** Mae'r rhan fwyaf o'r costau gweinyddol amcangyfrifedig yn gysylltiedig ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, mewn perthynas â gwaith sy'n ymwneud â darpariaethau ardrethi annomestig a'r dreth gyngor dros y cyfnod gwerthuso o ddeng mlynedd. Er ei bod yn siomedig mai dim ond chwe awdurdod lleol a ymatebodd i alwad y Gweinidog am wybodaeth, nodwn y bu ymgysylltu parhaus ag awdurdodau lleol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru a bod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn fodlon â'r costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Conclusion 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

**Recommendation 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ymrwymo i ddarparu cymaint o dryloywder â phosibl mewn perthynas â chostau'r Bil drwy gyhoeddi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn i gyd-fynd ag is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil hwn.

**Recommendation 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn esbonio sut mae Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'i Llawlyfr Deddfwriaeth ei hun mewn perthynas â gosod is-ddeddfwriaeth i Filiau.

**Recommendation 3.** Mewn perthynas â systemau amgen o drethiant lleol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn parhau i archwilio pob llwybr ar gyfer newid er mwyn sicrhau bod y penderfyniad cywir yn cael ei wneud ynghylch y system drethiant lleol fwyaf priodol; ac
- yn darparu copi o'r map ffordd ar gyfer treth gwerth tir, ynghyd ag amlinelliad o unrhyw gostau cysylltiedig, i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

# 3. Ardrethi Annomestig

**31.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif cyfanswm costau sy'n gysylltiedig â darpariaethau ardrethi annomestig o £41.140 miliwn a chyfanswm manteision o £14.950 miliwn.[31]

## Ailbrisiad tair blynedd

**32.** Bydd y Bil yn cynyddu amlder ailbrisiadau ardrethi annomestig o bob pum mlynedd i bob tair blynedd.[32] Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod newidiadau tebyg yn cael eu datblygu ledled y DU[33], gan gynnwys ar gyfer Lloegr drwy Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023.[34]

**33.** Mae cyfanswm cost y newid, dros ddeng mlynedd, yn gynnydd o £6.311 miliwn, o £9.622 miliwn am gylch pum mlynedd i £15.933 miliwn ar gyfer cylch tair blynedd.[35] Gwnaeth Llywodraeth Cymru ystyried a diystyru cylchoedd amgen eraill, gan gynnwys yr opsiwn o ailbrisio bob dwy flynedd.[36]

**34.** O ran symud at yr ailbrisiadau mwy rheolaidd, dywedodd y Gweinidog:

> *"The VOA will be delivering the revaluations for both England and Wales, and that's part of a joint programme, so that will allow us to benefit from those economies of scale and the administrative effectiveness that the VOA provides, in terms of the services across both England and Wales. We think the costs are justifiable in light of the balance that three-year revaluations provide to ratepayers, in giving them a degree of certainty whilst also, then, having a system that reflects the more up-to-date economic environment."*[37]

**35.** Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith os na fydd y Bil yn cael ei weithredu, ni fydd ailbrisiad ardrethi annomestig yn digwydd yng Nghymru yn 2026, a byddai'r nesaf yn digwydd yn 2028, felly byddai hynny ychydig yn anghyson â Lloegr.[38] Fe ddywedodd:

---

[31] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 100 a 103
[32] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 54
[33] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 13 a 55
[34] Deddf Ardrethu Annomestig 2023
[35] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 59
[36] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 55
[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 144
[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 145

> *"Then, we'd have to look again at the cost profiles, bearing in mind, then, that we wouldn't benefit from that kind of economy of scale… so we'd have to, I suppose, explore with the VOA a revised cost profile."*[39]

**36.** Teimlai'r Gweinidog fod yr ailbrisiadau tair blynedd yn darparu'r cydbwysedd hwnnw y mae talwyr ardrethi wedi dweud wrthynt eu bod nhw am ei gael hefyd, o ran y sicrwydd ac adlewyrchiad cyfoes o'r amgylchiadau.[40] Nid oedd yn rhagweld y byddai'r ailbrisiadau amlach yn cael effaith feichus ar fusnesau.[41]

**37.** Ychwanegodd y Gweinidog y canlynol:

> *"The change in itself won't create any additional costs for ratepayers overall; they would only occur if the revaluation of the tax base meant that the individual property attracted a higher rateable value. We haven't quantified those costs, because we won't know what they are until the revaluation has taken place, but, importantly, the exercise would be revenue neutral across the tax base, so I think, again, that's something that's important to reflect on."*[42]

**38.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys costau gweinyddol sy'n dod i ran awdurdodau lleol yn bennaf ac sy'n gysylltiedig â rhoi'r drefn ailbrisio newydd ar waith a diweddaru systemau bilio. Mae hyn mewn perthynas â systemau TG, yn ogystal â rhywfaint o ymgysylltu â thalwyr ardrethi. Nodir costau cyfleoedd o £933,000[43] ar draws y deng mlynedd, ac o'i gymharu â'r system bresennol, mae hyn yn gost ychwanegol o £311,000, ac mae'n cynnwys un cylch ychwanegol o'i gymharu â'r trefniadau presennol.[44]

**39.** Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> *"Tybiwyd na chaiff unrhyw staff parhaol ychwanegol eu recriwtio i awdurdodau lleol er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd bach mewn gweithgarwch gweinyddol. Caiff adnoddau staff eu neilltuo o blith y timau gweinyddu ar drethi*

[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 145
[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 147
[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 148
[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 147
[43] Mae'r gwerthoedd ar gyfer y gweithgarwch hwn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn wahanol yn nhabl 8.1 (£331,000) ac 8.2 (£311,000).
[44] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 58

> *annomestig presennol yn ôl y blaenoriaethau ac, felly, ystyrir eu bod yn gost cyfle."*[45]

**40.** Mewn perthynas â chostau cyfle, dywedodd y Gweinidog:

> *"Revaluations will result in those altered liabilities for ratepayers, with local authorities being required to update their billing systems to implement a new ratings list. But local authorities are already required to undertake the billing activity on an annual basis anyway, so, in that sense, we wouldn't expect there to be significant additional costs. Local authorities, in the discussions that we've had with them, also suggest that any changes, really, would be related to the information technology systems and, also, a small amount of additional engagement that they might have to undertake with ratepayers. So, we think that a small amount of additional activity could be incorporated within the existing administration costs."*[46]

**41.** Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar dalwyr ardrethi, gan gynnwys darparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio a allai effeithio ar werth ardrethol eiddo neu hunaniaeth person atebol, wrth i newidiadau sy'n effeithio ar eu heiddo ddigwydd. Bydd angen cwblhau cadarnhad blynyddol hefyd i gadarnhau bod y wybodaeth a gedwir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gywir ac yn gyfredol. Bydd trefn gydymffurfio ac apeliadau ar gyfer y dyletswyddau newydd yn cael ei chyflwyno. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dweud bod Llywodraeth y DU yn dilyn nodau tebyg mewn perthynas â Lloegr.[47]

**42.** Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y baich cydymffurfio ar dalwyr ardrethi fydd £2.975 miliwn yn 2026-27 yn ystod blwyddyn gyntaf y system newydd ac £1.7 miliwn yn y blynyddoedd dilynol. Cyfanswm y gost ychwanegol i dalwyr ardrethi, felly, yw £14.875 miliwn.[48]

**43.** Yr amcangyfrif presennol o'r gost i Lywodraeth Cymru o ariannu Asiantaeth y Swyddfa Brisio i sefydlu a chynnal y gwasanaeth ar-lein yw £15 miliwn dros y cyfnod o ddeng mlynedd. Mae'r proffil cost wedi'i flaenlwytho, sy'n adlewyrchu'r gwaith o ddatblygu a lansio'r gwasanaeth dros yr ychydig flynyddoedd cyntaf.[49]

---

[45] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 58
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 150
[47] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 75 a 76
[48] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 78 a 79
[49] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 78

**44.** Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif mai'r gost ychwanegol i dalwyr ardrethi unigol fydd £35 yn y flwyddyn gyntaf ac £20 y flwyddyn wedi hynny.

**45.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi:

> *"Mae'r gost hon yn ystyried y ddyletswydd i hysbysu wrth i newidiadau ddigwydd yn ogystal â'r cadarnhad blynyddol, a fydd yn defnyddio'r un system TG. Mae'r costau is yn yr ail flwyddyn yn ystyried yr arbedion effeithlonrwydd a fydd yn deillio o'r ffaith bod talwyr ardrethi bellach yn gyfarwydd â'r broses a'r systemau."*[50]

**46.** Dywedodd y Gweinidog fod hyn dim ond ychydig yn uwch na'r £15 yr oeddent yn amcangyfrif y bydd y gost flynyddol ar hyn o bryd. Roedd y Gweinidog o'r farn bod y costau hyn yn gymedrol iawn ac yn gymesur.[51]

**47.** Ychwanegodd swyddog y Gweinidog y canlynol:

> *"I think it's useful just to note that revaluations already happen in the NDR space; there was one in 2017 and there was one in 2023. Ratepayers were engaged with that and had to supply information for that process in the traditional, current way. What this is doing is not changing the fact that ratepayers will be engaging with the Valuation Office Agency at revaluation stages; the VOA are looking at changing the process to make it easier to engage on a more frequent basis to be able to deliver three-yearly revaluations."*[52]

**48.** Dywedodd y Gweinidog y bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn awyddus i ddod o hyd i'r ffordd iawn o wneud system sy'n hawdd ei defnyddio[53] a dywedodd y canlynol hefyd:

> *"…we won't require businesses to use that system until we're absolutely confident that it will be up and running… which we wouldn't expect to be, actually, for the 2026 revaluation, it would be the one following that, and that was always our intention as well."*[54]

---

[50] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 78
[51] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 152-153
[52] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 156
[53] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 157
[54] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 157

## Osgoi

**49.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod amcangyfrifon o 2017 yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn colli rhwng £10 miliwn ac £20 miliwn y flwyddyn o ganlyniad i osgoi ardrethi annomestig.[55] Mae'r Bil yn cyflwyno math o reol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi, gyda'r newidiadau manwl i'w nodi mewn is-ddeddfwriaeth.

**50.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, er nad yw osgoi yn anghyfreithlon, "mae'n ymddygiad sy'n creu trefniadau artiffisial er mwyn sicrhau manteision treth".[56]

**51.** Ar y mater hwn, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"…we've been doing lots of work recently to tackle avoidance in a number of ways, but this Bill will help us do more of that in future and look to those avoidance schemes that are creative—they pop up all of the time in different ways—to enable us to respond to that in a more agile way. It specifically includes some work in relation to charitable rate relief. We know that there are avoidance schemes in that space, so we're able to take some action on that in this Bill."*[57]

**52.** Dywedodd y Gweinidog ei bod am leihau'r cyfleoedd hynny i osgoi, oherwydd bod hynny, yn amlwg, yn cael effaith ar y cyllid cyffredinol sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.[58] Aeth yn ei blaen i ddweud:

> *"When we make regulations to identify those specific behaviours, the impact on revenues, of course, will depend entirely on what the behaviours are, and the extent of the behaviours. So, it's hard to say at the moment, but what this does is give us a chance to address those things quickly in future."*[59]

[55] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 63
[56] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 19
[57] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 173
[58] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 187
[59] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 189

## Barn y Pwyllgor

**53.** Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau ychwanegol i awdurdodau lleol yn sgil ailbrisiadau mwy rheolaidd, a nodir fel costau cyfle. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhai gwahaniaethau rhwng ffigurau sydd wedi'u cynnwys mewn gwahanol leoedd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er enghraifft, mae tabl 8.1 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys ffigur o £331,000 ar gyfer y gweithgarwch hwn, ond mae tabl 8.2 yn nodi ffigur o £311,000. Mae mater tebyg ar gyfer gweithgarwch cydymffurfio gydag anghysondebau mewn costau yn nhabl 8.3 a pharagraff 8.128. Ymddengys hefyd fod gwahaniaeth yn y cyfrannau a nodir ym mharagraff 8.91 a'r rhaniad canrannol a awgrymir. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am eglurhad ar y materion hyn.

**54.** Bydd y Bil yn cynyddu amlder ailbrisiadau ardrethi annomestig yng Nghymru o bob pum mlynedd i bob tair blynedd. Rydym yn nodi bod newidiadau tebyg yn cael eu rhoi ar waith ledled y DU, ac y bydd alinio â'r dull gweithredu sy'n cael ei ddarparu yn Lloegr yn sicrhau arbedion maint ac effeithlonrwydd gweinyddol ar gyfer darparu gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio yng Nghymru. Fodd bynnag, os na chaiff y Bil ei weithredu, mae’r Pwyllgor yn nodi y bydd yr ailbrisiad ardrethi annomestig nesaf yng Nghymru yn digwydd yn 2028, a fydd yn anghyson â’r trefniadau yn Lloegr. Nid ydym yn glir ynghylch y risgiau a'r goblygiadau costau os bydd ymwahaniad rhwng Cymru a Lloegr, a gofynnwn am amcangyfrifon cost pellach gogyfer â’r sefyllfa hon.

**55.** Bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gweithredu ac yn cynnal system ar-lein newydd ar gost o £15 miliwn dros y cyfnod gwerthuso o ddeng mlynedd. Bydd yn ofynnol i dalwyr ardrethi ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w hunaniaeth a'u heiddo i Asiantaeth y Swyddfa Brisio wrth i newidiadau sy'n effeithio ar eu heiddo ddigwydd. Bydd dyletswydd hefyd ar dalwyr ardrethi i gwblhau cadarnhad blynyddol bod y wybodaeth a gedwir gan Asiantaeth y Swyddfa Gyflwyno yn gywir. Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mai'r amcangyfrif o gost ychwanegol i dalwyr ardrethi unigol o dan y system newydd fydd £35 yn y flwyddyn gyntaf ac £20 y flwyddyn wedi hynny. Mae’n ymddangos bod hyn yn gwrthdaro ag awgrym y Gweinidog y bydd y costau ychydig yn uwch na'r £15 yr amcangyfrifir ei fod yn ei gostio ar hyn o bryd i dalwyr ardrethi, ac mewn gwirionedd, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu y byddent yn fwy na dwbl hynny. Er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad gan y Gweinidog na fydd y system newydd yn mynd yn fyw nes ei bod yn gwbl hyderus, hoffem gael eglurder ar y risgiau posibl o ran costau i dalwyr ardrethi pe bai unrhyw oedi yn yr amserlen ar gyfer darparu'r system newydd.

**56.** Rydym yn croesawu cyflwyno math o reol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi yn y Bil i alluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i ymddygiadau osgoi a'u hatal. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn flaenorol ar ddechrau'r adroddiad hwn, bydd y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi yn cael ei gyflwyno trwy is-ddeddfwriaeth, ac o ganlyniad i hyn, nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd.

**57.** Maes arall a allai arwain at gostau sylweddol yw'r pŵer i ragnodi lluosyddion gwahaniaethol drwy reoliadau. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi lluosyddion gwahanol, mewn perthynas â disgrifiadau gwahanol o hereditamentau, a gwneud darpariaethau canlyniadol ac ailddatgan. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn anodd ar hyn o bryd i nodi a allai'r ddarpariaeth hon arwain at gostau sylweddol yn dibynnu ar ba ddewisiadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn gresynu at y diffyg manylion cost mewn perthynas â'r darpariaethau hyn yn y Bil, yn enwedig gan y gallent fod yn sylweddol (gweler argymhelliad 1).

**Recommendation 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r pwyntiau a godwyd ynghylch anghysondebau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a nodir yn yr adran hon, gyda'r bwriad o egluro'r wybodaeth a nodwyd mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Recommendation 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am y risgiau a'r goblygiadau cost i Gymru, os bydd yn ymwahanu oddi wrth Loegr, o ran amseriad ei hailbrisiadau ardrethi annomestig, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Recommendation 6.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am gyfanswm cost y ddyletswydd newydd i dalwyr ardrethi i ddarparu gwybodaeth gyfredol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, yn benodol, a yw'r gost o £35 a £20 fesul talwr ardrethi yn ychwanegol at y costau a amcangyfrifir ar hyn o bryd ar gyfer gweithgarwch perthnasol, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Recommendation 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y costau a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â system ar-lein newydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Dylai hyn gynnwys pryd y bydd yn cael ei gweithredu a risgiau unrhyw oedi posibl wrth weithredu i dalwyr ardrethi sy'n cydymffurfio â'r gofynion newydd i ddarparu gwybodaeth, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

# 4. Y Dreth Gyngor

**58.** Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif mai cyfanswm y costau sy’n gysylltiedig â darpariaethau’r dreth gyngor yw £18.024 miliwn ac arbedion cost o £390,000.[60]

**59.** Mae’r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod dros 1.4 miliwn o anheddau trethadwy yng Nghymru sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor, sy'n daladwy fel arfer gan unrhyw un dros 18 oed sy'n berchen ar gartref neu'n rhentu cartref. Mae prisiau tai yng Nghymru yn seiliedig ar werthoedd ar 1 Ebrill 2003, gyda'r newidiadau o'r tro diwethaf i sylfaen y dreth gyngor gael ei diweddaru a'i hailbrisio yn dod i rym ar 1 Ebrill 2005.[61]

**60.** Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau i Asiantaeth y Swyddfa Brisio o £14 miliwn dros y deng mlynedd mewn perthynas ag ailbrisiadau mwy rheolaidd o’r dreth gyngor. Mae hefyd yn nodi bod Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi amlinellu “cyfres o dybiaethau a chafeatau” o amgylch y ffigyrau hyn. Mae’n dweud bod y costau amcangyfrifedig i Asiantaeth y Swyddfa Brisio er mwyn cynnal ymarfer ailbrisio yn y dyfodol yn dibynnu ar i ba raddau y gall Llywodraeth Cymru ddewis diwygio system y dreth gyngor. Felly, mae'r amcangyfrifon a ddarparwyd ar sail profiad ailbrisio blaenorol.[62]

**61.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dweud bod maes o ansicrwydd yn ymwneud â rhaglen trawsnewid systemau busnes sy'n digwydd ar hyn o bryd yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae'n dweud y bydd y rhaglen drawsnewid arfaethedig yn newid y ffordd y mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cyflawni ei chyfrifoldebau ac y gallai ddarparu manteision effeithlonrwydd i Gymru, gan ei gwneud yn anodd amlinellu costau cywir ar gyfer ailbrisio ardrethi annomestig a’r dreth gyngor. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn mynd ymlaen i nodi “newid sefydliadol a gynlluniwyd” yn Nhribiwnlys Prisio Cymru.[63]

**62.** Dywedodd y Gweinidog bod ganddi hyder yn y ffigyrau a bod tystiolaeth Asiantaeth y Swyddfa Brisio i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai hefyd yn dangos y lefel uchel honno o hyder yn y ffigyrau hynny ac wrth gyflawni'r gwaith hefyd, felly nid oes unrhyw bryderon penodol ganddynt ar hyn o bryd.[64]

---

[60] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 100 a 103
[61] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 20
[62] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 83
[63] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 49
[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 212

**63.** Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am drefniadau trosiannol mewn perthynas ag ailbrisio. Cydnabu'r Gweinidog fod lefel o amheuaeth o hyd o fewn grwpiau ffocws a'r ymgysylltiad arall â'r cyhoedd a bod rhai pobl yn meddwl bod yr ymarfer yn ymwneud â chodi'r dreth gyngor—dywedodd nad yw hyn yn wir, a'i fod yn ymwneud â chodi'r un swm, ond drwy wneud hynny mewn ffordd decach.[65]

**64.** Cadarnhaodd y Gweinidog eu bod wedi dweud ymlaen llaw y byddent yn edrych ar drefniadau trosiannol[66], nid yn unig ar gyfer aelwydydd, ond hefyd ar gyfer awdurdodau lleol.[67] Nododd fel a ganlyn:

> *"One of the learnings from the last revaluation for council tax was that transitional arrangements, I think, were considered probably too late in the process, but we want to give people that confidence that we are thinking about it upfront. To what extent transitional arrangements are needed and what those might look like will obviously depend on the system that is chosen for the future as well."*[68]

**65.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog pa asesiad yr oedd wedi'i wneud o effaith ailbrisio'r dreth gyngor ar drethdalwyr. Yn ei hymateb, nododd y Gweinidog fod ymgynghoriad cam 2 Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r dreth gyngor[69] wedi nodi tair enghraifft bosibl y gallem ei dilyn yn y dyfodol.[70]

**66.** Dywedodd y Gweinidog ei bod, ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori, wedi cyhoeddi adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, a oedd yn dangos sut y gallai pob un o'r tri model hynny edrych mewn gwirionedd, o ran y ffordd y mae'n effeithio ar aelwydydd unigol ac yna hefyd yr effaith ddaearyddol.[71] Nododd y Gweinidog, er nad yw hi wedi penderfynu ar system eto, y gellid ei dylunio mewn nifer diderfyn o ffyrdd.[72]

**67.** Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau estynedig i Weinidogion Cymru mewn perthynas â disgowntiau a'r categorïau o bobl sy'n cael eu diystyru. Bydd ganddynt hefyd y pŵer i ganiatáu i gynghorau amrywio disgowntiau yn eu hardal o dan rai amgylchiadau.[73] Nid yw'r Asesiad

---

[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 227
[66] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 227
[67] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 229
[68] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 227
[69] Llywodraeth Cymru Treth Gyngor Decach: cam 2
[70] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 215
[71] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 216
[72] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 216
[73] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 90

Effaith Rheoleiddiol yn nodi unrhyw gostau gan ddweud, "Ni fyddai mabwysiadu'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw wariant cychwynnol i Lywodraeth Cymru nac unrhyw sector/sefydliad arall nes i'r pwerau gael eu defnyddio".[74]

**68.** Mewn perthynas â disgowntiau a diystyriadau o ran y dreth gyngor, dywedodd y Gweinidog:

> *"... we've got a working group looking at the 53 different exemptions, and so on, that we have at the moment. So, they'll be making recommendations as to whether any of those are changed or removed, or if there are new ones that we could add. So, again, responding to that kind of detailed work will be a next step down the road as well."*[75]

**69.** Pan ofynnwyd iddi a allai fod costau ychwanegol yn y dyfodol mewn perthynas â chynyddu hyblygrwydd o ran disgowntiau a diystyriadau, esboniodd y Gweinidog:

> *"...I think, [there] might be some changes that come out of that for us to consider. But there are some already proposed in the phase 2 council tax reform consultation."*[76]

## Barn y Pwyllgor

**70.** Rydym yn nodi'r ddarpariaeth yn y Bil i ganiatáu ar gyfer ailbrisio eiddo domestig yn rheolaidd, o ystyried bod ailbrisiadau yng Nghymru yn cael eu cychwyn ar hyn o bryd yn ôl disgresiwn Gweinidogion Cymru a dim ond un ailbrisiad (ailbrisiad 2005) sydd wedi digwydd ers i system y dreth gyngor gael ei chyflwyno yn 1993.

**71.** Cydnabu'r Gweinidog y bu lefel o amheuaeth yn ystod gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ar y cynnig hwn, gyda llawer o'r farn bod y Bil hwn yn ffordd o godi'r dreth gyngor. Rydym yn falch o glywed mai'r bwriad yw codi'r un faint o refeniw, ond drwy system decach. Mae'r Pwyllgor hwn eisoes wedi codi pryderon am natur atchweliadol y dreth gyngor ac mae'n cefnogi unrhyw nodau i'w gwneud yn decach heb effeithio ar y sylfaen dreth.

[74] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 92
[75] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 133
[76] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 231

**72.** Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o effaith ailbrisio ar drethdalwyr. Nodwn fod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar dreth gyngor decach: cam 2[77], sy'n nodi tri dull posibl o ddiwygio'r dreth gyngor, wedi cau yn ddiweddar. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y Gweinidog yn ystyried yr ymatebion cyn gwneud penderfyniad ar raddfa a chyflymder y diwygio, ac edrychwn ymlaen at gael rhagor o wybodaeth maes o law.

**73.** Rydym yn falch o nodi y bydd trefniadau trosiannol yn cael eu hystyried i gyfyngu ar effaith ailbrisiadau ar rai aelwydydd ac awdurdodau lleol. Mae angen ystyried trefniadau trosiannol ar gyfer unrhyw system newydd a weithredir yn y dyfodol ac unrhyw ailbrisio sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn. Gan na fydd trefniadau yn hysbys hyd nes y gwneir penderfyniadau ynghylch y system newydd, rydym yn galw ar y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trefniadau hyn.

**74.** Mewn perthynas â disgowntiau a diystyriadau o ran y dreth gyngor, eto nid yw'r rhain wedi'u pennu eto a byddant yn cael eu cyflwyno drwy is-ddeddfwriaeth. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddant yn destun ystyriaeth o ganlyniadau'r ymgynghoriad a'r argymhellion gan y gweithgor sy'n gyfrifol am ystyried yr esemptiadau sydd ar gael ar hyn o bryd. Er ein bod yn croesawu'r hyblygrwydd i greu a gosod disgowntiau a diystyriadau, rydym yn pryderu y gallai'r costau sylweddol hyn fod yn gysylltiedig â nhw (gweler argymhelliad 1).

**Recommendation 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud ar y dull o ddiwygio'r dreth gyngor. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad cost o unrhyw opsiynau posibl y gellid eu hystyried yn dilyn yr ymgynghoriad Treth Gyngor Decach: cam 2 ac unrhyw oblygiadau i'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

**Recommendation 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y gweithgor sy'n gyfrifol am ystyried yr esemptiadau treth gyngor presennol ac unrhyw waith sy'n cael ei wneud i symleiddio disgowntiau a diystyriadau.

**Recommendation 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am y trefniadau trosiannol a fydd yn cael eu rhoi ar waith i gyfyngu ar effaith ailbrisiadau'r dreth gyngor ar aelwydydd ac awdurdodau lleol.

[77] Llywodraeth Cymru: Treth Gyngor Decach: cam 2

# 5. Adolygiad ôl-weithredu

**75.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys adolygiad ôl-weithredu, sy'n datgan:

> *"Caiff trefniadau manwl ar gyfer rhoi'r polisi ar waith eu datblygu gydag ymarferwyr a gweithgorau er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben, gan ddefnyddio profiad ymarferol a gwybodaeth leol".*[78]

**76.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i ddweud y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol i fonitro a gwerthuso effaith diwygio cyllid llywodraeth leol:

> *"Ar gyfer pob un o'r darpariaethau yn y Bil, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y cynhelir asesiadau parhaus o'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth wedi cael ei rhoi ar waith ac wedi dylanwadu ar fwriad y polisi. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd dwyochrog â'r Gweinidogion perthnasol er mwyn trafod a monitro cynnydd."*[79]

**77.** Dywedodd y Gweinidog y bydd llwyddiant y Bil mewn sawl ffordd yn ymwneud â'r effaith y mae'r ailbrisiadau amlach hynny'n ei chael ar degwch y system, gan ei chadw'n gyfoes a phrofiad y trethdalwyr o ran talu a chael bil am y lefel gywir o dreth.[80]

**78.** Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud:

> *"… I think that lots of the provisions in the Bill will require further work, so work around the disregards, exemptions, discounts and premiums and so on, and that will obviously require assessment of the impact of those particular choices that are made in the future. We'd assess the impact of the Bill on multipliers. So, did a future choice on multipliers have the impact that it was intended to have at the time? In that sense, lots of the impact of the Bill comes from decisions that will be taken later, but, overall, this Bill is about modernising the system, bringing it up to date and having a system made here*

[78] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 144
[79] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 144
[80] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 234

> *in Wales for local tax as well, rather than having to look to London to make changes for us. So, it's about having a modern system, really, which is fit for purpose and agile."*[81]

## Barn y Pwyllgor

**79.** Mae'r Pwyllgor yn ategu ei farn ei bod yn arfer da cynnwys adolygiad ôl-weithredu cadarn, gan helpu i sicrhau bod amcanion deddfwriaeth yn cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyliadau a dangos y cyflawnwyd gwerth am arian. O ystyried y bydd nifer o'r darpariaethau yn y Bil yn cael eu gweithredu gan is-ddeddfwriaeth, megis y diystyriadau, esemptiadau, a lluosyddion ymhlith eraill, bydd angen asesu effaith y dewisiadau penodol hynny ar y rhain.

**80.** Un o brif themâu ein hadroddiad yw nad yw nifer o gostau sy'n ymwneud â chyflawni'r Bil hwn yn hysbys ac y byddant yn cael eu darparu ochr yn ochr ag is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Felly, rydym yn croesawu cynnwys darpariaethau'r adolygiad ôl-weithredu a fydd, yn ein barn ni, yn arbennig o werth chweil, ac rydym yn galw i unrhyw adolygiad gynnwys asesiad o is-ddeddfwriaeth a wneir o dan bwerau a ddirprwyir gan y Bil hwn.

**Recommendation 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod unrhyw adolygiad ôl-weithredu yn asesu costau a manteision cyffredinol y Bil, gan gynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed ac a yw'r rhain yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

[81] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 7 Chwefror 2024, paragraff 234